GWYNDOD | Great British ENERGY | NUCLEAR

# Y Sbarc

Medi 2026 – Rhifyn IV

*Y diweddaraf gan Great British Energy - Nuclear*

## Mae'r Dewis Wedi'i Wneud

Dechreuodd bennod newydd ar 26ain Mehefin, pan gyhoeddodd Great British Energy – Nuclear yr enw ar safle ei brosiect SMR ger Gorsaf Bŵer Wylfa ar Ynys Môn: **Gwyndod**. Dewiswyd yr enw yn dilyn menter enwi'r safle wedi'i harwain gan y gymuned a oedd yn gwahodd pobl leol i gyflwyno awgrymiadau ar gyfer enw'r safle newydd. Gwnaethpwyd y penderfyniad mawr gan banel o bobl ifanc, gyda dau gynrychiolydd o bob ysgol uwchradd ar Ynys Môn a dau fyfyriwr Coleg Menai, gyda Llinos Medi AS a'r Gwir Anrhydeddus Jo Stevens yn cadeirio. Wedi trafodaeth feddylgar, dewiswyd yr enw Gwyndod gan y panel, enw sydd wedi'i ysbrydoli gan derm hanesyddol Cymreig sy'n gysylltiedig â phobl Ynys Môn. Rydym yn ddiolchgar i Rachel Parry o Gaergeiliog am awgrymu'r enw buddugol, a hoffem hefyd ddiolch i'r bobl ifanc a gymerodd ran yn y garreg filltir arbennig hon. Mae eu cyfraniad wedi siapio hunaniaeth y prosiect o'r cychwyn cyntaf.




*Disgyblion o ysgolion uwchradd lleol a myfyrwyr Coleg Menai yn datgelu enw newydd safle SMR GBE-N*

## Tîm Gwyndod yn Tyfu

Ers rhifyn diwethaf *Y Sbarc*, mae ein tîm yn Swyddfa Safle Gwyndod wedi parhau i dyfu. Pleser o'r mwyaf yw cael croesawu pum cydweithiwr newydd i'r tîm, y mae'r cwbl yn siarad Cymraeg ac yn lleol i Ynys Môn. Drwy gael y bobl hyn yn rhan o'n tîm, rydym yn cryfhau ein presenoldeb yn lleol ac yn dangos ymrwymiad GBE-N i sicrhau bod pobl a chymunedau'r ardal yn elwa ar y prosiect. Mae hefyd yn pwysleisio'r pwysigrwydd yr ydym ni'n ei osod ar hyrwyddo a pharchu'r iaith Gymraeg wrth i ni barhau i fagu perthnasoedd ar draws yr Ynys. Cadwch lygad ar ein gwefan os oes gennych chi ddiddordeb mewn ymuno â'n tîm.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiwn ynghylch y prosiect, byddem yn hapus iawn clywed gennych chi yn Gymraeg neu Saesneg:
Gwyndod@greatbritishnuclear.uk

## Cwrdd â Gweinidog Ynni Cymru

Yn ddiweddar, cyfarfu cynrychiolwyr GBE-N â Gweinidog y Cabinet dros Ynni yn Llywodraeth Cymru, Adam Price, i roi diweddariad iddo ar gynnydd y prosiect, trafod y cerrig milltir sydd i ddod a blaenoriaethau allweddol. Roedd y cyfarfod yn rhan o raglen ymgysylltu parhaus GBE-N gyda Llywodraeth Cymru wrth i waith barhau i symud prosiect Gwyndod a'r rhaglen SMR ehangach yn eu blaen.

# Croeso Cynnes yn Sioe Môn

Dros ddau ddiwrnod hynod brysur a phoeth ym mis Awst, pleser gan dîm GBE-N oedd cwrdd â phobl Ynys Môn a thu hwnt yn Sioe Môn. Fel rhan o'r digwyddiad, cawsom gyfle gwerthfawr i wrando, ateb cwestiynau a chlywed ystod eang o sylwadau ynglŷn â Phrosiect Gwyndod. Calonogol oedd gweld lefel y diddordeb gan ymwelwyr, a'r sgyrsiau difyr a gawsom drwy gydol y sioe.

Er bod Sioe Môn wedi dod i ben am flwyddyn arall, dim ond dechrau mae ein sgyrsiau gyda chymunedau ar draws yr Ynys. Edrychwn ymlaen at barhau i ymgysylltu, gwrando ar bobl leol a gweithio gyda nhw gan y byddant yn hanfodol yn ein helpu ni i ddatblygu'r prosiect.




*Stondin GBE-N yn Sioe Môn 2026*

## Cyhoeddi'r Broses Gaffael ar gyfer ein Partner Cyflawni

Ym mis Gorffennaf, cyrhaeddodd GBE-N garreg filltir allweddol ym Mhrosiect Gwyndod drwy gyhoeddi'r broses gaffael ar gyfer ei Bartner Cyflawni. Bydd y broses gystadleuol hon yn penodi sefydliad i ddarparu'r arbenigedd technegol, masnachol a rheolaeth rhaglen sydd eu hangen i gefnogi'r prosiect wrth iddo symud ymlaen i'r cam nesaf. Bydd y Partner Cyflawni yn chwarae rôl bwysig o ran helpu GBE-N i ddatblygu'r gallu a'r capasiti sydd eu hangen i gyflawni prosiect ar y raddfa hon, gan weithio ochr yn ochr â'n timau wrth i gynlluniau barhau i ddatblygu. Daw'r cyhoeddiad hwn wedi misoedd o waith manwl ar draws GBE-N ac mae'n nodi cam pwysig arall o osod y sylfeini cywir yn eu lle ar gyfer cyflawni Prosiect Gwyndod yn y dyfodol.

## GBE-N yn Ymuno â Mudiad Diogelwch Niwclear Byd-eang

Mae GBE-N wedi ymuno'n ffurfiol â Chymdeithas Fyd-eang Gweithredwyr Niwclear (WANO) fel aelod Categori 5 (ymgeisydd newydd), gan nodi cam pwysig yn ein taith at ddod yn weithredwr niwclear o'r radd flaenaf. Mae WANO yn hollbwysig ar draws sector niwclear y byd, gan ddwyn sefydliadau ynghyd i rannu profiad o weithredu, dealltwriaeth am ddiogelwch ac arfer orau.

I GBE-N, mae'r aelodaeth hon yn hollbwysig i feithrin diwylliant diogelwch cryf o'r cychwyn cyntaf a dysgu gan ddegawdau o arbenigedd rhyngwladol wrth i ni ddatblygu ein rhaglen SMR.

Drwy fod yn aelod o WANO, byddwn yn elwa o gefnogaeth wedi'i theilwra ar ein cyfer ni, mynediad at ddata a digwyddiadau diwydiant, a chynllun ymgysylltu strwythuredig, gan ein helpu ni i weithredu safonau uchel yn ein gweithrediadau, ein sefydliad a'n diogelwch ymhell cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau.

Yn gyfnewid, bydd GBE-N yn cyfrannu at y gymuned fyd-eang drwy rannu dysg o ddatblygiad SMR a chefnogi arloesedd y dyfodol.

## Ar dy Feic!

Aeth cydweithwyr Prosiect Gwyndod o GBE-N a Rolls-Royce SMR ar eu beics ym mis Awst i gymryd rhan yn y Tour de Môn, gan frwydro drwy daith heriol o 107 milltir gyda hyfrydwch Ynys Môn yn gefndir iddynt. Gyda'i gilydd, fe gododd y tîm £750 ar gyfer Chwilio ac Achub Môn, elusen sy'n darparu gwasanaeth hollbwysig sy'n arbed bywydau ar draws yr Ynys.

Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran mewn taith feicio anodd ond cofiadwy. Gydag elltydd, cefn gwlad helaeth a ffyrdd arfordirol, bu rhaid i'r beicwyr fod ar dop eu gêm ac fe brofwyd unwaith eto nad tir gwastad mo Ynys Môn! Mae'r profiad yn amlwg wedi cael argraff ar gydweithwyr GBE-N gan fod rhai eisoes yn sôn am wynebu'r her eto'r flwyddyn nesaf!

Diolch i bawb sy'n helpu i wneud Tour de Môn yn ddigwyddiad mor arbennig flwyddyn ar ôl blwyddyn, o'r trefnwyr a'r marsialiaid i'r cymunedau a ddaeth allan i floeddio hwrê a chodi calon y beicwyr ar hyd y daith.



*Tîm Gwyndod yn y Tour de Môn*

# Cyflawni Gyda'n Gilydd

Fis Hydref, bydd GBE-N yn cynnal digwyddiad Cyflawni Gyda'n Gilydd ar y cyd â Rolls-Royce SMR, sef cynhadledd cadwyn gyflenwi dros ddau ddiwrnod yn Coleg Menai. Bydd y digwyddiad yn dwyn ynghyd cyflenwyr, rhanddeiliaid a phartneriaid i archwilio sut all busnesau helpu i gyflawni cenhedlaeth newydd o brosiectau niwclear newydd y DU. Bydd hefyd yn cynnig cyfle i drafod y sgiliau, gwasanaethau a galluoedd y bydd eu hangen wrth i Brosiect Gwyndod ddatblygu. Bydd yr ail ddiwrnod yn canolbwyntio'n benodol ar ddatgloi cyfleoedd ar gyfer busnesau bach a chanolig ar draws Ynys Môn a Gogledd Cymru, gan eu helpu i ddeall sut allant gymryd rhan, paratoi ar gyfer cyfleoedd y dyfodol ac elwa o'r prosiect wrth iddo fynd rhagddo. Ewch i Cynhadledd Cadwyn Gyflenwi Great British Energy – Nuclear a Rolls-Royce SMR i gael gwybod mwy am y digwyddiad hwn ac i fynegi diddordeb i ymuno â ni.



*Prif Swyddog Gweithredol GBE-N Simon Roddy gydag Elfed Williams a Mair Rowlands*

# Croesawu Aelodau'r Senedd i Gwyndod

Er yr ystyrir tymor yr hydref yn dymor tawel, does dim bwriad i arafu yma yn Gwyndod. Mae mis Medi eisoes wedi bod yn fis prysur, gyda Phrif Swyddog Gweithredol GBE-N Simon Roddy yn croesawu rhai o'n Haelodau newydd o'r Senedd i'r safle. Yn ystod yr ymweliad, cyfarfu Mair Rowlands ac Elfed Williams ag aelodau o dîm Gwyndod, aethant ar daith o gwmpas y safle, a gweld drwy eu llygaid eu hunain graddfa a photensial y safle a'r gwaith cynnar sydd eisoes yn digwydd. Roedd yr ymweliad yn gyfle pwysig i drafod cynnydd y prosiect, ei rôl o ran cefnogi uchelgeisiau ynni glân y dyfodol, a phwysigrwydd parhau i weithio'n agos gyda chymunedau a chynrychiolwyr ledled Cymru.

# Ymlaen Gyda'n Gilydd

Ar y 4ydd Mehefin, daeth cydweithwyr GBE-N a RR-SMR ynghyd ar gyfer digwyddiad Cyflawni Gyda'n Gilydd: Cael Gwyndod yn Iawn. Gyda ffocws ar gynnydd, blaenoriaethau a phartneriaethau, pwysleisiwyd nad oes modd cyflawni Gwyndod drwy un sefydliad yn unig, ond drwy gael system ehangach o bartneriaid, cyflenwyr, rheoleiddwyr, ac yn bwysicach fyth, cymunedau. Gyda chyflwyniadau gan uwch-arweinwyr, trafodaethau panel a gweithdai, roedd y digwyddiad yn gyfle euraidd i ddwyn y ddau sefydliad ynghyd i rannu syniadau a helpu i siapio mentrau a ffyrdd newydd o weithio.




*Digwyddiad Ymlaen Gyda'n Gilydd*

# Dysgu Gwersi gan Sizewell C

Ar y 4ydd Awst, aeth arweinwyr GBE-N a Rolls-Royce SMR ar daith i Sizewell C, un o brosiectau gorsaf bŵer niwclear mwyaf diweddar y DU sy'n cael ei ddatblygu yn Suffolk. Roedd yr ymweliad yn gyfle i weld yn uniongyrchol sut mae prosiect niwclear newydd mawr yn cael ei gynllunio a'i gyflawni, a chlywyd o lygad y ffynnon gan y rheini sydd ynghlwm â'r gwaith o symud y prosiect yn ei flaen.

I GBE-N, roedd yr ymweliad yn gyfle gwerthfawr i ddysgu gan brofiad tîm Sizewell C a deall yn well y systemau, y ffyrdd o weithio a'r partneriaethau sydd eu hangen i gyflawni prosiect o'r raddfa hon. Wrth i waith fynd rhagddo i ddatblygu Gwyndod, bydd ymgysylltu â phrosiectau niwclear sylweddol eraill yn helpu i sicrhau ein bod ni'n tynnu ar wersi, yn adeiladu'r gallu cywir ac yn gweithredu ar ddealltwriaeth ymarferol wrth i ni ddatblygu'r cynlluniau ar gyfer adweithyddion modiwlar bach cyntaf y DU.

# Edrych yn Ôl i Symud Ymlaen

Fel rhan o unrhyw brosiect sylweddol fel rhaglen Gwyndod, mae arloygon archaeolegol yn hollbwysig i gael dealltwriaeth well o nodweddion y safle, ei gyflwr, a'i hanes cyn bod unrhyw benderfyniadau caniatáu yn cael eu gwneud. Mae'r gwaith hwn yn helpu i adnabod a chofnodi unrhyw nodweddion archaeolegol i sicrhau bod ystyriaethau treftadaeth ddiwylliannol wedi'u deall a'u rheoli'n briodol wrth i gynigion y prosiect ddatblygu.

Er bod arolygon archaeolegol wedi'u gwneud yn y gorffennol fel rhan o brosiect Horizon, mae'r cynigion ar gyfer Gwyndod yn wahanol ac yn gofyn am raglen newydd o waith arolygu i gefnogi datblygiad parhaus y prosiect. Felly, dros y rhai misoedd a blynyddoedd nesaf, efallai y byddwch chi'n sylwi mwy o weithgarwch ar y safle wrth i ni fynd ati i gynnal yr arolygon a'r gwaith galluogi hollbwysig.



*Gwarchod y gorffennol er budd y dyfodol*

# Gwyndod yn Creu Cyfleoedd Ledled y DU

Ar y 3ydd Medi, ymunodd Prif Swyddog Gweithredol GBE-N Simon Roddy, â'r Ysgrifennydd Gwladol Miatta Fahnbulleh, Rolls-Royce SMR a Siemens Energy i gyhoeddi y bydd cydrannau allweddol o'r tyrbinau stêm ar gyfer y tri SMR cyntaf yn Gwyndod yn cael eu gweithgynhrychu yng nghyfleuster Siemens Energy yn Newcastle.

Bydd y cyfleuster yn cynhyrchu tyrbinau gwasgedd uchel a chasinau falfiau, gan nodi'r tro cyntaf i'r math hwn o gydrannau gael eu gweithgynhyrchu ar gyfer adweithydd modiwlar bach yn unrhyw le yn Ewrop. Disgwylir i'r cytundeb hwn gefnogi cannoedd o swyddi a bydd yn cryfhau sgiliau a chadwyni cyflenwi gweithgynhyrchu y DU.

Er bod y prosiect wedi'i leoli ar Ynys Môn ac yn mynd i gyflawni buddion hirdymor i'r gymuned leol, mae'r cyhoeddiad hwn hefyd yn dangos effaith genedlaethol rhaglen Gwyndod.

# Prentisiaid Ynys Môn ar Gychwyn Gyrfa ym Myd Niwclear

Yn ddiweddar, dechreuodd deg o brentisiaid ifanc ar eu gyrfa ym myd niwclear gyda darparwr technoleg GBE-N, Rolls-Royce SMR, ar adeg hynod gyffrous i'r diwydiant a Phrosiect Gwyndod. Mae eu prentisiaeth yn cyfuno cymhwyster Peirianneg Lefel 3 yn Coleg Menai gyda phrofiad ymarferol a hyfforddiant mewnol gan arbenigwyr yn nhîm Diogelwch a Materion Rheoleiddio RR-SMR. Bydd y cyfuniad hwn o ddysgu mewn dosbarth a phrofiad ymarferol yn eu helpu i ddatblygu'r sgiliau, yr hyder a'r wybodaeth sydd ei hangen i gefnogi'r genhedlaeth nesaf o brosiectau niwclear yn ddiogel. Calonogol tu hwnt yw gweld pobl ifanc leol eisoes yn elwa o'r cyfleoedd sy'n cael eu creu, yn cael hyfforddiant o ansawdd ac yn cymryd eu camau cyntaf tuag at yrfaoedd hirdymor yn y sector a hynny yn eu milltir sgwâr.



*Partner Technoleg GBE-N, RR-SMR, wedi croesawu 10 prentis lleol*

# Croesawu Cyfarwyddwr Prosiect Gweithredol a Phrif Swyddog Masnachol

Yn ystod yr haf, fe groesawom ddau uwch-arweinydd i GBE-N wrth i Brosiect Gwyndod barhau i symud yn ei flaen. Ymunodd Chris Goodwin fel Cyfarwyddwr Prosiect Gweithredol, gan gymryd yr awenau gan Kenny Douglas. Gyda phrofiad o gyflawni prosiectau seilwaith gwerth biliynau o bunnoedd ar draws y byd, daw Chris â sgiliau arwain ac arbenigedd cyflawni ar adeg bwysig i'r prosiect. Mae GBE-N hefyd wedi croesawu Andrew Stephenson fel Prif Swyddog Masnachol, gan gamu i esgidiau Beverley Gray. Daw Andrew ag arbenigedd helaeth mewn prosesau caffael y sector cyhoeddus a rhaglenni cyfalaf cymhleth gwerth dros £100bn, ac mae'n adnabyddus am ei waith ar brosiectau seilwaith mawr. Pleser yw croesawu Chris ac Andrew i'r tîm wrth i ni barhau i ddatblygu'r sgiliau a'r arweinyddiaeth sydd eu hangen i gefnogi cam nesaf y prosiect.

# Dyfarniad Efydd yng Nghynllun Cydnabod Cyflogwyr y Weinyddiaeth Amddiffyn

ARMED FORCES COVENANT
EMPLOYER RECOGNITION SCHEME
BRONZE AWARD

Mae GBE-N wedi'i ddyfarnu â statws Efydd dan Gynllun Cydnabod Cyflogwyr y Weinyddiaeth Amddiffyn, sy'n cydnabod sefydliadau sy'n dangos cefnogaeth tuag at staff milwrol sy'n gwasanaethu, staff milwrol wrth gefn, cyn-filwyr a theuluoedd milwrol drwy eu harferion cyflogi a diwylliant yn y gweithle.

I GBE-N, mae'r gydnabyddiaeth yn adlewyrchu ein hymrwymiad i greu sefydliad cynhwysol sy'n gwerthfawrogi'r sgiliau, y profiadau a'r persbectifau y gall pobl o ystod eang o gefndiroedd eu cynnig.

Dywedodd Simon Roddy, Prif Swyddog Gweithredol GBE-N: "Wrth i ni gyflawni cenhedlaeth nesaf o bŵer niwclear y DU, gwyddom y bydd profiad, proffesiynoldeb ac ymrwymiad cymuned y Lluoedd Arfog yn chwarae rôl bwysig yn y genhadaeth honno.

Mae derbyn y Dyfarniad Efydd yn garreg filltir bwysig ac yn dangos ein hymrwymiad i greu cyfleoedd i bobl yng nghymuned y Lluoedd Arfog i barhau i wneud gwahaniaeth drwy yrfaoedd ystyrlon."

Mae'r Cynllun Cydnabod Cyflogwyr yn ffurfio rhan o Gyfamod y Lluoedd Arfog ac yn cynnwys dyfarniadau Efydd, Arian ac Aur i sefydliadau sy'n cefnogi cymuned y Lluoedd Arfog yn weithredol.

Wrth i ni barhau i dyfu, rydym yn ymroddedig i ddenu pobl ddawnus o bob cefndir sydd eisiau helpu i gyflawni dyfodol ynni glân y DU, a byddwn yn parhau i ddatblygu gweithle lle mae'r profiad hwnnw yn cael ei gydnabod a'i werthfawrogi.

## Fforwm Cymunedol Oldbury

Ar y 10fed Medi, cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Fforwm Cymunedol Oldbury, sydd wedi'i sefydlu ar y cyd rhwng GBE-N a Chyngor Plwyf Oldbury. Pwrpas y Fforwm yw ymgysylltu â'r gymuned ac mae'n dwyn ynghyd rhanddeiliaid allweddol safle Oldbury, gyda Gillian Ellis-King, sy'n uchel ei pharch ac yn brofiadol mewn datblygiadau niwclear, yn gweithredu fel Cadeirydd.

Great British ENERGY | NUCLEAR

**Great British Energy – Nuclear**
**Department For Energy Security & Net Zero**
Renaissance House
Centre Park
Lakeside Drive
Warrington
WA1 1QF